www.mantellgwynedd.com

MANTELL

NEWYDDLEN MUDIADAU GWIRFODDOL GWYNEDD

Rhifyn 53
Mai 2011

CYNNWYS

O Mantell	2
Plant a Phobl Ifanc	3
Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles	4
Canolfan Wirfoddoli	5
Newyddion	6
Cyfleoedd Ariannu Y Porth Ymgysylltu	7
Digwyddiadau a Hyfforddiant	8

Mwy o wybodaeth ynghyd â'r newyddion diweddaraf i'w gael ar ein gwefan!

ERDF
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your Future
European Regional Development Fund

CODI YMWYBYDDIAETH

Dros y misoedd diwethaf cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau sy'n cael eu darparu gan fudiadau trydydd sector ym maes Iechyd, Gofal a Lles. Llogwyd siop yng Nghanolfan Deiniol, Bangor am wythnos ym mis Mawrth ac yn ystod yr un wythnos lansiwyd yr Uned Symudol newydd gan Mrs Mary Burrows, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. *Dyma luniau a gasglwyd yn ystod y digwyddiadau*

GWAITH CALED POBL IFANC GISDA

Yn ddiweddar, cyflwynodd bobl ifanc GISDA eu hymchwil i'w menter busnes cynaliadwy, sy'n cynnwys wal ddringo ym Mlaenau Ffestiniog, i'r Prif Weinidog, Carwyn Jones. Dywedodd ei fod wedi ei blesio â gwaith caled a bod hyn yn esiampl o beth all gael ei gyflawni os rhoddir y cyfle i bobl.

Swyddfa Gofrestredig: 23-25 Y Bont Bridd, CAERNARFON, LL55 1AB. Ffôn: 01286 672626 • Ffacs: 01286 678430
Swyddfa Gofrestredig: Yr Hen Orsaf Heddlu • Y Lawnt • DOLGELLAU • LL40 1SB. Ffôn: 01341 422575 • Ffacs: 01341 422147
E-bost: ymholiadau@mantellgwynedd.com • Gwefan: www.mantellgwynedd.com

Elusen Gofrestredig: 1068851 • Cwmni Trwy Warant: 3420271 • Cofrestrwyd yng Nghymru
Cyhoeddir MANTELL gan Mantell Gwynedd. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn Mantell o angenrheidrwyddyn adlewyrchu barn Mantell Gwynedd.
Cedwir yr hawl i olygu cyn cyhoeddi.

STAFF MANTELL GWYNEDD

CAERNARFON
Prif Swyddog: Bethan Russell Williams

Tîm Gwasanaethau
Hwylusydd Iechyd a Gofal Cym:
Sioned Llwyd Larsen
Swyddog Grantiau a Chefnogaeth:
Delyth Vaughan
Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc:
Carwyn Humphreys
Cydlynydd Trydydd Sector:
Medwyn Williams

Tîm Cyllid a Gweinyddol
Dirprwy Brif Swyddog a Phennaeth Tîm Cyllid a Gweinyddu:
Ceren Williams
Swyddog Gweinyddol:
Bronwen Rowlands
Cynorthwy-ydd Gweinyddol:
Tracy Lynne Rotheram

Tîm Canolfan Wirfoddoli
Cydlynydd Gwirfoddoli:
Rhianon Jones
Swyddog Gwirfoddoli:
Iola Till
Swyddog Gwirfoddoli Ieuenctid:
Mirain Roberts
Swyddog Porth Ymgysylltu:
Carys Williams

DOLGELLAU
Tîm Cyllid a Gweinyddol
Cynorthwy-ydd Gweinyddol:
Ellen ap Dafydd
Tîm Canolfan Wirfoddoli
Swyddog Gwirfoddoli:
Ann Angharad Fleming

DEUNYDD I'R RHIFYN NESAF O MANTELL

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn gwybodaeth i rifyn nesaf o Mantell yw **24 Mehefin 2011**.

Danfonwch neu e-bostiwch unrhyw wybodaeth at **Ellen ap Dafydd**, Swyddfa Mantell Dolgellau
e-bost:
EllenapDafydd@mantellgwynedd.com
Ffôn **01341 422 575**

Nodyn gan y Prif Swyddog

Dros y penwythnos, ar ddydd Sul Ebrill 17eg, mi lwyddais i gyflawni rhywbeth na feddyliais i erioed y byddwn wedi gallu ei wneud. Cymerais ran yn y digwyddiad mwyaf yn y byd sydd yn codi arian at achosion da - Marathon Llundain. I'r rhai ohonoch sydd yn fy adnabod yn dda byddwch yn meddwl yn siŵr mai wedi bod wrthi yn gwirfoddoli yno ydw'i ond nage wir… bu i mi gyflawni'r gamp aruthrol o gwblhau'r farathon gyfan, a hynny ar fy nhraed! Yn rhedeg wrth fy ochor oedd John (fy ngŵr) a hon yn wythfed Marathon Llundain i John eleni. Go brin y byddwn wedi llwyddo i gyrraedd pen y daith hebddo.

Daeth y syniad gwallgof i mi rhyw dro tua'r adeg yma llynedd. Rhoddais fy enw yn yr het yn ystod mis Ebrill 2010, gan feddwl yn siwr na fyddwn i byth yn llwyddo i gael lle. Wedi'r cyfan mae 'na 120,000 o unigolion yn ymgeisio am lai na 40,000 o lefydd i redeg. Ar Hydref 1af cefais lythyr gan gwmni Virgin (sydd yn noddi'r digwyddiad) yn datgan fy mod wedi llwyddo i gael lle i redeg. Dydd Sul diwethaf 'roeddwn yn un o'r 35,000 lwyddodd i orffen y 26.2 milltir allan o'r 36,500 o redwyr a gychwynnodd ar y daith lafurus yn y gwres llethol ar hyd strydoedd lliwgar a phrysur Llundain.

Doeddwn i erioed wedi profi'r fath awyrgylch o'r blaen. Amcangyfrifir fod 100,000 o unigolion yn cefnogi'r digwyddiad ar hyd y daith ac yn ystod y dydd. Yn ôl pob sôn 'roedd 'na 10,000 o wirfoddolwyr yn rhoi o'u hamser yn ystod y dydd i gynorthwyo gyda'r digwyddiad. Mi gododd Marathon Llundain dros £50miliwn at achosion da llynedd ac amcangyfrifir y bydd y ffigwr yn uwch na hynny hyd yn oed eleni. Mae'r ystadegau yn hollol anhygoel.

Cymro oedd un o sylfaenwyr Marathon Llundain sef John Disley, yn enedigol o Corris. Athletwr oedd John fu'n gweithio ar y cyd gyda'r newyddiadurwr John Brasher. Mi drefnodd y ddau'r Marathon Llundain cyntaf yn 1981. Ers hynny, mae dros £500 miliwn wedi ei godi at achosion da. Mae dros 80% o'r rhedwyr bob blwyddyn yn codi arian at achosion da.

Fy elusen ddewisedig i oedd Cŵn Tywys Gwynedd. 'Rwyf wedi bod wrthi yn ddygn ers peth amser bellach yn darllen *Papur Dre* ar dap ar gyfer y deillion a thrwy'r gwirfoddoli hyn wedi dod i adnabod rhai ohonynt yn dda. I'r rhai ohonoch sydd yn byw neu weithio yng Nghaernarfon rydych yn hen gyfarwydd dwi'n siwr a'r nifer fawr iawn o Gŵn Tywys sydd yn gweithio yn y dref. Mae 19 o Gŵn Tywys yn gweithio yng Ngwynedd ar hyn o bryd. Mae'r elusen yn dathlu ei phenblwydd yn 80 oed eleni. Mi lwyddodd ymdrechion John a minnau dydd Sul diwethaf i godi ychydig filoedd tuag at yr elusen werth chweil hon.

Rwy'n rhannu'r profiad gwych yma gyda chi yn fy mhwt yn y newyddlen hon y tro yma am ei fod , mewn gwirionedd, yn epitomeiddio popeth sydd yn dda am ddynoliaeth. Profais gefnogaeth anhygoel dieithriaid ar hyd y daith trwy Lundain, gwelais filoedd o wirfoddolwyr yn llafurio yn ddiflino, gwelais yr unigolion o bob lliw a llun ac wedi gwisgo mewn gwisgoedd mwyaf anhygoel yn ymdrechu i gyrraedd pen y daith - a phob un o'r bobl hyn yn cyfrannu at y £50+ miliwn a godir eleni er budd elusennau ag achosion da. Dyma wirfoddoli ar ei orau a bydd degau ar ddegau o filoedd o unigolion, trwy'r elusennau fydd wedi elwa, yn cael budd o ymdrechion eraill. Profais lawer o bethau dydd Sul ond, uwchlaw popeth arall, profais garedigrwydd dynoliaeth. Gwirfoddoli ar ei orau.

Tan tro nesa,

Bethan

GRANT DAN ARWEINIAD POBL IFANC GWYNEDD

Bydd grant Gwirvol yn rhedeg am y bedwaredd flwyddyn. Mae £7,000 ar gael yn ystod 2011/12.

Pwyslais mawr y grant yw cefnogi prosiectau gwirfoddoli bach a gynhelir ac a arweinir gan bobl ifanc (16-25 oed).

Enghreifftiau o rai o'r cynlluniau a dderbyniwyd grant flwyddyn ddiwethaf -

- Criw o bobl ifanc wedi dod at ei gilydd i lunio logo ar gyfer eu mudiad.
- Pobl ifanc yn llunio a chyhoeddi Cylchgrawn i leuenctid.
- Grŵp o bobl ifanc yn trefnu sioe amaethyddol gyntaf yn ardal Maesywaen.
- Gwirfoddolwyr ifanc yn dysgu sgiliau newydd a gwirfoddoli yn y maes awyr agored.
- Criw o bobl ifanc yn trefnu gig ar gyfer pobl ifanc.
- Grŵp gyda diddordeb trefnu, hyrwyddo a chynnal digwyddiadau a chynnwys bandiau Cymraeg i ddenu cynulleidfaoedd newydd.
- Pobl ifanc sydd yn gofyn am grant ar gyfer gallu rhoi anrhegion i'r cleifion ar ward y plant yn Ysbyty Gwynedd.
- Criw ifanc yn trefnu cinio Nadolig i henoed y gymuned.
- Dwy wirfoddolwraig yn gofyn am grant tuag at offer celf a chrefft ar gyfer gallu cynnal clwb chwarae yn ystod y gwyliau i bobl ifanc.
- Merch ifanc eisiau datblygu ei syniad o gael bagiau i rieni a phlant ar gyfer anghenion dros nos, neu sydd yn gorfod cael eu trosglwyddo ar frys o Ysbyty Gwynedd.

Am becyn cais a rhagor o wybodaeth cysylltwch â Mirain ar:
(01286) 672626 neu **mirain@mantellgwynedd.com**

Lowri Grug yn cyflwyno Bagiau Brys i ward y plant.

Gwynedd yn ardal arloesi 'Teuluoedd yn Gyntaf'

'Teuluoedd yn Gyntaf' yw strategaeth newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru. Cyhoeddwyd dwy ardal arloesi fis Gorffennaf 2010 a gwahoddwyd siroedd eraill Cymru fis Chwefror 2011 i gydweithio â'i gilydd i ddatblygu a chyflwyno cais i sefydlu tair ardal newydd. Cyflwynwyd cais ar y cyd rhwng Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy er mwyn sefydlu consortiwm arloesi yn y Gogledd Orllewin.

Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog dros blant, Huw Lewis, fis Mawrth 2011, fod y Gogledd-orllewin wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais ynghyd â cheisiadau Caerdydd a Chasnewydd a chonsortiwm y De-orllewin.

Pwrpas ardaloedd arloesi yw arwain y gwaith o wella dulliau darparu gwasanaethau i deuluoedd ledled Cymru, yn enwedig teuluoedd sy'n byw mewn tlodi, sy'n unol â Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus i weithredu'n gyflym i ddod o hyd i'r dulliau gorau o weithio a sicrhau eu bod ar waith ledled Cymru.

NYAS CYMRU

Mae'n bleser gan NYAS Cymru gyflwyno eu darpariaeth o wasanaeth eiriolaeth ac ymwelwyr annibynnol i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd, Môn a Chonwy o'r 1af o Ebrill 2011. Rhif cyfeiriadau Cymraeg (oriau swyddfa): **07786 961099**
Annette Owen, Cydlynydd Prosiect: **07766 511426.**
Jo Swords – Rheolwr Gwasanaeth - **07795 122 359**
Llinell Gymorth NYAS: **0800 616101.**

Mi fydd NYAS Cymru hefyd yn darparu gwasanaeth Eiriolaeth ychwanegol i blant, pobl ifanc a theuluoedd yng Ngwynedd trwy agenda Teuluoedd yn Gyntaf. Cynigir gwasanaeth i blant, pobl ifanc a theuluoedd sydd yn derbyn cymorth trwy ddull tîm o amgylch y teulu. Am wybodaeth bellach cysylltwch â Nia Gwynfor ar: **07876397294** neu linell gymorth NYAS: **0800 616101**.

RHWYDWAITH IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A LLES

Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Rhwydwaith ar Ddydd Llun Gorffennaf 11 yn y Ganolfan (ger y Cob), Porthmadog am 10 y bore. Bydd Mrs Olwen Williams, Pennaeth Staff Rhaglen Glinigol Meddygaeth Gychwynnol, Gymunedol ac Arbenigol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn ymuno â ni ynghyd â swyddogion eraill. Bydd yn gyfle da i drafod sut y gall y trydydd sector gydweithio â'r Rhaglenni Clinigol Gogledd Cymru ynghyd a'r timau ardal leol integredig yng Ngwynedd.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â **Sioned Larsen** ym Mantell Gwynedd ar **01286 672626** neu **sioned@mantellgwynedd.com**

CYNGHRAIR CYFLYRAU IECHYD TYMOR HIR DE GWYNEDD

Nod y Gynghrair yma yw cefnogi unigolion a mudiadau i weithio mewn partneriaeth i fod yn un llais i bawb sydd â chyflyrau iechyd tymor hir a chronig; yn fras dyma ei hamcanion:

- Dylanwadu ar y ddarpariaeth, cynnal a datblygu gwasanaethau a mudiadau lleol
- Galluogi cyfathrebu, rhwydweithio a chefnogaeth rhwng aelodau
- Codi ymwybyddiaeth o achosion cyffredin gyda chyrff perthnasol
- Bod yn weithredol.

Mae'r Gynghrair ar hyn o bryd yn chwilio am Drysorydd ac os yr hoffech chi ymgymryd â'r rôl yma fe fyddem yn falch iawn o glywed gennych. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Ddydd Llun Gorffennaf 25 yn y Ganolfan Hamdden yn Nolgellau am 10 y bore. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â **Sioned** ym Mantell Gwynedd.

CYNLLUN PEILOT GWARCHODWYR IECHYD GWIRFODDOL YN Y GYMUNED

Cafwyd dathliad yn Nolgellau ar y 31ain o Fawrth i ddiolch i bawb wnaeth sicrhau llwyddiant y cynllun peilot yma yn Ne Gwynedd. Prif nod y cynllun oedd datblygu cynllun cyfeillio, gwrando a chyfeirio ynghyd â llunio protocolau a gweithdrefnau pwrpasol i gefnogi'r prosiect. Yn anffodus, mae'r cynllun peilot yma yn Ne Gwynedd wedi dirwyn i ben diwedd Mawrth 2011.

Y bwriad yw defnyddio'r gwaith a wnaethpwyd ar y cynllun fel adnodd i gynorthwyo mudiadau i ddatblygu cynlluniau tebyg mewn ardaloedd eraill o Gymru a thu hwnt. O'r adroddiadau gwerthuso sydd eisoes wedi eu cyhoeddi ymddengys fod y cynllun wedi bod yn llwyddiannus ac yn werthfawr iawn i'r unigolion hynny sydd wedi ymwneud â'r prosiect gan gynnwys y gwirfoddolwyr eu hunain. Gobeithio y bydd modd parhau â chynllun o'r fath yn y dyfodol gan fod y seiliau eisoes wedi eu gosod. Am fwy o wybodaeth am y cynllun ynghyd â chynlluniau eraill ewch ar wefan Safle Arddangos Rheoli Cyflyrau Cronig: **www.ccmdemonstrators.com/home.aspx**

MUDIAD ADFER MÔN A GWYNEDD (A.G.R.O)

Mae'r grŵp yma yn cynnig cefnogaeth a gweithgareddau i bobl Gwynedd a Môn i'w cynorthwyo i oresgyn eu dibyniaeth ar alcohol a sylweddau a'u hannog i ail afael yn eu bywydau.

Mae Cangen Bangor yn cyfarfod ar nos Fawrth yng Nghanolfan Lôn Abaty, Bangor rhwng 6-8 y nos.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: **07775872254** (rhwng 9-5 Llun -Gwener) neu **07549956002** (gyda'r nos/penwythnos) neu e-bostiwch **huw.harries@btinternet.com**

Ymgynghori

Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) - Rheoliadau a Chanllawiau Drafft

Mae'r Mesur yma yn rhoi dyletswydd ar y GIG a'r Awdurdodau Lleol yng Nghymru (yr 'awdurdodau perthnasol') i weithio ar y cyd i baratoi, cyhoeddi a gweithredu strategaeth ar gyfer Gofalwyr. Am fwy o wybodaeth ewch ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/carers/?skip=1&lang=cy&status=open

Diwedd y cyfnod ymgynghori: 23/06/2011

Cystadleuaeth Tynnu Lluniau

CYFLE I ENNILL HAMPER

Eleni eto, mae Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd yn gwahodd unigolion a / neu fudiadau i anfon llun sydd yn cyfleu GWIRFODDOLI yng Ngwynedd. Rydyn ni'n chwilio am luniau o bobl yn gwirfoddoli, gallant fod o unrhyw oed, yn gwneud unrhyw weithgaredd. Bydd detholiad o'r lluniau yn cael eu harddangos yn ystod Wythnos Gwirfoddolwyr 2011.

Gall unrhyw un, o unrhyw oed, gystadlu, ond mae'n rhaid

- i'r ffotograffydd gael caniatâd y rhai fydd yn y llun cyn ei anfon atom
- anfon 'ffurflen cystadlu' (ar gael o'r Ganolfan Wirfoddoli) gyda phob llun.

Canllawiau llawn ar gael o'r swyddfa - cysylltwch â'r **Ganolfan Wirfoddoli 01286 672626**, neu gwirfoddoli@mantellgwynedd.com

Stondin Deithiol

Stondin Deithiol - yn codi ymwybyddiaeth ac yn rhannu gwybodaeth am wirfoddoli. Mae croeso i fudiadau ymuno â'r stondin yn y lleoliadau canlynol:-

Llanberis – Mercher, 1af Mehefin
Bangor – Iau, 2il Mehefin
Dolgellau – Gwener, 3ydd Mehefin
Nefyn – Mawrth (bore), 7fed Mehefin
Porthmadog – Mawrth (prynhawn), 7fed Mehefin
Pwllheli – Mercher, 8fed Mehefin

Wythnos Gwirfoddolwyr 1af – 7fed Mehefin 2011

Mae 'Wythnos Gwirfoddolwyr yn ddigwyddiad cenedlaethol i ddathlu cyfraniad gwirfoddolwyr a gwirfoddoli sy'n cael ei gynnal yn ystod yr wythnos gyntaf o Fehefin bob blwyddyn. Mae'n chwarae rhan bwysig trwy godi proffil gwirfoddoli yn ogystal ag annog eraill i gymryd rhan.

Eleni, mae Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd yn trefnu:
Cystadleuaeth Tynnu Llun - cyfle i ennill hamper!
Stondin Deithiol
Te Dathlu a Diolch i wirfoddolwyr

Te Dathlu a Diolch i wirfoddolwyr

P'nawn Llun, 6ed o Fehefin am 3.00pm yn Oriel Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog.
Mae gwahoddiad i unrhyw un ymuno â'r gweithgareddau uchod - cysylltwch â Chanolfan Gwirfoddoli Gwynedd ar **01286 672626** neu **gwirfoddoli@mantellgwynedd.com** am ragor o fanylion.

CYFLEOEDD GWIRFODDOLI

Cyfle i fudiadau i gofrestru / ddiweddaru gwybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli
Mae Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd yn cynnig gwasanaeth arbennig i fudiadau neu grwpiau sydd yn dibynnu ar wirfoddolwyr i gynnal a datblygu eu gwasanaeth. Rydym yn rhannu gwybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli gyda'r cyhoedd ac yn cyfeirio darpar wirfoddolwyr at fudiadau sydd wedi cofrestru gyda ni. Rydym hefyd yn gyfrifol am roi gwybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli lleol ar y wefan genedlaethol lwyddiannus iawn sef **www.gwirfoddolicymru.net**

Mae casglu a chadw'r wybodaeth ddiweddaraf am wirfoddoli yn her barhaol i ni, a chroesewir unrhyw wybodaeth gan fudiadau ynglŷn â newidiadau yn eu cyfleoedd gwirfoddoli neu yn eu manylion cysylltu.

Os hoffai eich mudiad chi gofrestru cyfle(oedd) gwirfoddoli o'r newydd gyda Chanolfan Gwirfoddoli Gwynedd - cysylltwch â swyddfa Caernarfon:
01286 672626 neu **gwirfoddoli@mantellgwynedd.com**

Rhwydwaith Trefnwyr Gwirfoddolwyr Gwynedd

Cynhelir sesiwn wybodaeth gan Uned Cofnodion Troseddol y CGGC am **10.00am dydd Mawrth 21ain Mehefin 2011** yn Adeilad yr Institiwt, Caernarfon.
Yn dilyn adolygiad gan y Llywodraeth i'r Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA), dyma gyfle i chi i glywed am y cynigion a'r argymhellion diweddaraf sydd yn cael eu cynnwys yn y Mesur Rhyddid. Bydd y Mesur, o gael cymeradwyaeth yn y senedd, yn debygol o ddod i rym yn gynnar yn 2012.

Copi o newyddion a gwybodaeth ddiweddaraf i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) ewch i'r adran **Newyddion** ar wefan Mantell Gwynedd - **www.mantellgwynedd.com**

Galw ar holl grwpiau a phrosiectau cymunedol sydd a diddordeb mewn lleihau ei hôl troed carbon!

Mae Asiantaeth Ynni Hafren Gwy (SWEA) yn rhedeg rhaglen ymchwil Braenaru i gefnogi gweithredu cymunedol ar y newid yn yr hinsawdd, gan ganolbwyntio ar leihau ôl troed carbon yn y meysydd trafnidiaeth, egni, bwyd ac arbed dŵr. Dyma gyfle gwych i ddatblygu cynllun presennol neu ddechrau prosiect newydd i leihau eich ôl-troed carbon, ac efallai arbed peth arian yr run ffordd!
Dafydd Jones ydi'r Swyddog Lleol yng Ngwynedd a mae eisiau clywed gennych chi! Y mwyaf o grwpiau a chymunedau a gawn yn rhan o'r prosiect yna y gorau fydd y cymorth gallwn ei roi i chi yn y dyfodol. Os ydych â diddordeb neu am fwy o wybodaeth cysylltwch â **Dafydd** am sgwrs ar **07875965531** neu **dafyddjones@swea.co.uk.**
Gwybodaeth bellach ar **www.swea.co.uk/proj_pathfinder.shtml**

Cyfieithu Cymunedol

Chwilio am gyfieithwyr

• Sy'n ymfalchïo yn eu cyfieithu graenus, naturiol, proffesiynol
• Sy'n medru cyfieithu dogfennau o bob math
• Sy'n cynnig prisiau gostyngol i fudiadau cymunedol:
£30 am fil o eiriau ac i gyrff gwirfoddol ac elusennol, **£45 am fil o eiriau**
Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, ac yn cynnal cyrsiau cyfieithu a sesiynau gloywi iaith yn ogystal. Mae popeth y gallwch ei gyfieithu eich hun yn gyfieithiad nad oes yn rhaid talu amdano!
Cysylltwch â ni **www.cyfieithucymunedol.org** **post@cyfieithucymunedol.org**

Cynllun Gardd i Godi'r Ysbryd

Mae Canolfan Felin Fach, elusen sy'n cynnig cyngor a chefnogaeth i bobl sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl, alcohol a chyffuriau, wedi dechrau cynllun garddio newydd ym Motwnnog, ym Mhen Llŷn. Mae'r cynllun, sy'n cael ei ariannu'n bennaf gan y Loteri, yn cynnig cyfleoedd i bobl fwynhau dysgu sgiliau newydd, codi eu hyder a meithrin iechyd corfforol a meddyliol.
Bydd rôl bwysig i wirfoddolwyr yn y cynllun, ac rydym yn recriwtio gwirfoddolwyr i wneud gwaith cefnogol ar hyn o bryd.
Am ragor o wybodaeth ynglŷn â chynllun gardd Canolfan Felin Fach, cysylltwch â Seran ar **01758 701611** neu **seranfelinfach@gmail.com**, neu galwch i mewn i'r ganolfan ar Stryd Penlan ym Mhwllheli.

Deialu 2 i siarad Cymraeg

Yn ddiweddar, lansiwyd gwasanaeth ffôn newydd i siaradwyr Cymraeg gan y Comisiwn Elusennau.
Mae pobl sy'n ffonio llinell gymorth y Comisiwn eisoes yn gallu gofyn i siarad ag un o gynghorwyr Cymraeg y rheoleiddiwr. O hyn ymlaen, caiff y dewis hwn ei hysbysebu'n flaenllaw drwy ofyn i gwsmeriaid "wasgu 2" i siarad â chynghorydd yn Gymraeg. Yn ogystal â chysylltu â'r Comisiwn dros y ffôn, cofiwch gall cwsmeriaid hefyd anfon e-bost a/neu wneud cais ar-lein i gofrestru elusen a defnyddio ein ffurflenni electronig yn Gymraeg. Y rhif ffôn i gysylltu â 'r Comisiwn yw **0845 300 0218** neu ewch i **www.comisiwnelusennau.gov.uk/welsh**

Cyllideb 2011 – newidiadau ar gyfer elusennau

Yn dilyn cyhoeddi'r gyllideb fis Mawrth mae cryn newidiadau i ddod ar gyfer elusennau ynglŷn â Rhodd Cymorth a threth etifeddiant e.e.
• System ffeilio Rhodd Cymorth ar-lein erbyn 2013
• Cyflwyno cynllun rhoddion bach Rhodd Cymorth o fis Ebrill 2013. Bydd yn galluogi elusennau i hawlio Rhodd Cymorth ar hyd at £5,000 y flwyddyn o roddion bach trwy gasgliadau heb yr angen am ddatganiadau Rhodd Cymorth.
• Treth etifeddiant – lleihau cyfradd y dreth etifeddiant, o 40% i 36%, ar gyfer y rheiny sy'n gadael 10% neu fwy i elusen o fis Ebrill 2012.
Am fwy o wybodaeth am yr uchod cysylltwch â **Eileen Kinsman**, WCVA ar **0800 2888 329** neu e-bostiwch **givingwales@wcva.org.uk**

Grantiau GwirVol 2011-2012

A ydych yn awyddus i gynnwys pobl ifanc yn eich mudiad? Ewch draw i www.gwirvol.org – ceir gwybodaeth yma am grantiau i gynnwys pobl ifanc trwy raglenni amrwyiol megis 'Hyrwyddo', 'Cyfleoedd', 'Street Games', 'Rhyngwladol' a Gwirfoddolwr y Mileniwm.

Ymddiriedolaeth Lloyds TSB yng Nghymru

Yn 2011, mae'r Ymddiriedolaeth yng Nghymru yn cysidro ariannu prosiectau refeniw o **£15,000** hyd at **£20,000** mewn cyfanswm dros ddwy flynedd i elusennau cofrestredig yn unig. Mae'n rhaid i waith elusennau rannu yr un genhadaeth â'r Ymddiriedolaeth sef i 'alluogi pobl ddifreintiedig i chwarae rôl gyflawn yn eu cymuned o'u dewis'. Am fwy o wybodaeth ewch i **www.lloydstsbfoundations.org.uk**

Lloyds TSB | Foundation for England and Wales

Trefi Taclus Cymru

Mae Trefi Taclus yn cynnig grantiau i brosiectau cymunedol i wella golwg eu cymunedau ar draws Cymru. Dyfernir grantiau o £1,000 hyd at £30,000 i grwpiau cymunedol i wella tir diffaith a/neu ddatblygu gerddi cymunedol a rhandiroedd. Am fwy o wybodaeth ewch i **www.keepwalestidy.org/our-projects/tidy-towns** neu ffoniwch **029 2072 6994**

Pleidlais Fawr y Gymuned 2011

Os wyddoch chi am fudiad neu grŵp cymunedol sy'n gwneud yn dda yn eich cymuned ac yr hoffech eu gweld yn cael siawns i gael grant o £2,000, pam na wnewch eu hannog i enwebu eu hunain ar gyfer Pleidlais Fawr y Gymuned 2011 i Aelodau'r Co-op. Ymwelwch â **www.co-operative.coop/bigcommunityvote** i gael rhagor o fanylion.

Cist Gymunedol Gwynedd

Mae Cist Cymunedol Gwynedd yn cychwyn blwyddyn arall o gefnogi cynlluniau datblygu chwaraeon a gweithgareddau egniol newydd neu ychwanegol yn y gymuned.
Mae uchafswm y grant wedi cynyddu eleni i **£1500**.

Ymddiriedolaeth Tudor

Mae Ymddiriedolaeth Tudor wedi cyhoeddi canllawiau newydd ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2011 a Mawrth 2012. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi gwaith sy'n rhoi sylw i amrywiaeth eang o anghenion, gan ganolbwyntio ar helpu pobl ar gyrion cymdeithas a mynd at wraidd eu problemau. Am fwy o wybodaeth ewch i **www.tudortrust.org.uk**

Y Porth Ymgysylltu

Mae'r dull o gynnig cyllid o dan Y Porth Ymgysylltu wedi newid o'r 1af Ebrill o fod yn Dendr Cystadleuol i fod yn un yn cynnig Grant Cystadleuol. Fe fydd rhaid i Gyflenwyr Cymeradwy barhau i fynd drwy'r broses o gyflwyno dogfennau fydd yn dangos ansawdd eu cynllun ynghyd â chostau ar gyfer eu cynllun. O hyn allan yn hytrach na derbyn cytundeb sydd ag amodau cyflenwi caeth fe fydd y mudiadau llwyddiannus yn arwyddo Telerau ac Amodau Grant.

Rhaglen y Ddraig Werdd

Bydd mentrau cymdeithasol ar draws rhannau o Gymru'n elwa o raglen am ddim fydd yn sefydlu systemau rheoli amgylcheddol ac yn datblygu eu busnesau drwy ddefnyddio Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd.

Enillodd Groundwork, mewn partneriaeth gyda'r Prosiect Cefnogi Mentrau Cymdeithasol Canolfan Gydweithredol Cymru, gytundeb i gyflenwi Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd Lefel 1 a Lefel 2 i fentrau cymdeithasol ar draws yr ardaloedd cydgyfeiriant yng Nghymru. Mae Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd yn ris-system yn cynnwys pum Lefel cyrhaeddiad sy'n darparu fframwaith i sicrhau arbedion costau, cydymffurfio â deddfwriaeth, gwella perfformiad amgylcheddol a chynyddu'r elfen gystadleuol.

Mae'r cynllun hwn am ddim i fentrau cymdeithasol cymwys ac mae'n cynnig buddion arbedion ariannol a gwell perfformiad amgylcheddol. Mae lleoedd ar y rhaglen yn gyfyngedig felly os ydych yn fenter gymdeithasol â diddordeb mewn cymryd rhan, gallwch gysylltu ag **Alison Fuller**, **Cydlynydd Prosiect Amgylchedd** ar **01978 757524, alison.fuller@groundwork.org.uk** i gael mwy o wybodaeth am y **Ddraig Werdd** ewch i **www.greendragonems.com**

ESF

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop

Europe & Wales: Investing in your Future
European Social Fund

Cymhorthfa AM DDIM

Cynhelir cymhorthfeydd hyd at 40 munud un i un ar gyfer grwpiau gwirfoddol sy'n ymddiddori a gweithio yn y maes celfyddydau, treftadaeth, diwylliant, crefftau gwirfoddol.

7fed Mehefin 2011

Yn : Swyddfa Mantell Gwynedd
23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd LL55 1AB
rhwng 10.00 y.b. a 5.00 y.p.

gyda **Gwawr Roberts** Swyddog Celfyddydau Cymunedol Cyngor Gwynedd, **Delyth Vaughan** Swyddog Grantiau a Chefnogaeth Mantell Gwynedd ac **Ingela Mann** Swyddog Partneriaeth Celfyddydau Gwirfoddol Cymru

Dewch draw i drafod eich anghenion ar gyfer eich cefnogi i ddatblygu ac am ffynonnellau arian posibl.

I archebu lle cysylltwch â **Ingela Mann** ar **07880 857388** neu **ingela@vaw.org.uk**

Rhaglen Hyfforddi Rheoli Tybaco ASH

Mae ASH Cymru yn cynnig Rhaglen Hyfforddi Rheoli Tybaco ar gyfer rheini sydd â diddordeb mewn dod i wybod sut i weithio gyda phobl ifanc ar faterion sy'n gysylltiedig ag ysmygu. Cwrs hyfforddi deinamig ymarferol sy'n rhoi'r grym i gyfranogwyr gyda ffyrdd effeithiol o fynd i'r afael â'r defnydd o dybaco gyda phobl ifanc. Mi fydd hyfforddiant yn cynnwys pynciau megis atal a rhoi'r gorau i ysmygu, ac eiriolaeth ar dybaco gyda phobl ifanc.

Y cyfle nesaf i ymgymryd â'r hyfforddiant fydd ar 15ed Mehefin 2011 yng Ngwesty'r Commodore yn Llandrindod, archebwch le cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi siom. Am ragor o wybodaeth am y cwrs, dyddiadau eraill sydd ar gael, ac i gofrestru, gallwch ymweld â'r wefan:

www.ashwales.org.uk/training-for-teachers-and-youth-workers/

Neu anfonwch e-bost at **Laura@ashwales.org.uk**

Rhaglen 'Cyrsiau i Gymunedau' (CCC)

Hyfforddiant fforddiadwy ar gyfer grwpiau cymunedol a gwirfoddol a ddarperir drwy bartneriaeth rhwng Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CGS), Canolfannau Gwirfoddoli a CGGC (WCVA) ar draws Gogledd Cymru

I ddarganfod pa gyrsiau hyfforddiant sydd ar gael ewch i'r wefan www.wcva.org.uk
Neu i wneud ymholiadau cyffredinol cysylltwch â **Lein Gymorth CGGC (WCVA)** ar 0800 2888329 neu **help@wcva.org.uk**

Hyfforddiant Tystysgrif Diogelwch Bwyd Lefel 2 Mewn Arlwyo
25ain Mai 2011 - 9.30 hyd at 4.30 o'r gloch
Hyfforddwr: Lindsey Rogers
Cost: £45 Aelodau Mantell Gwynedd £55 Di-aelod sector gwirfoddol £65 Sector Preifat a Statudol
Mae Tystysgrif gan Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd yn cael ei chyflwyno i'r dysgwyr llwyddiannus.
Lleoliad: Gweithdai Glanypwll, Blaenau Ffestiniog
Cysylltwch â Mantell Gwynedd erbyn y 18fed o Fai 2011

Cwrs Cymorth Cyntaf Brys
27ain Mehefin 2011, 9.30yb hyd at 4.30yp
Hyfforddwyr: Medi-Tec
Cost: £45 Aelodau Mantell Gwynedd £55 Di-aelod sector gwirfoddol £65 Sector Preifat a Statudol
Lleoliad: Y Ganolfan, Porthmadog
Cysylltwch â Mantell Gwynedd erbyn y 20fed o Fehefin 2011

Hyfforddiant Tystysgrif Diogelwch Bwyd Lefel 2 Mewn Arlwyo
6ed Gorffennaf 2011 - 9.30yb - 4.30yp
Hyfforddwr: Andy Thompson
Cost: £45 Aelodau Mantell Gwynedd £55 Di-aelod sector gwirfoddol £65 Sector Preifat a Statudol
Mae Tystysgrif gan Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd yn cael ei chyflwyno i'r dysgwyr llwyddiannus.
Lleoliad: Eglwys Santes Fair, Tremadog
Cysylltwch â Mantell Gwynedd erbyn y 29ain Mehefin 2011

DEWCH I YMUNO Â NI yn Sioe Amaethyddol Meironnydd, Y BALA, dydd Mercher - 24ain Awst.
Estynnir gwahoddiad cynnes iawn i chi - holl fudiadau gwirfoddol sydd yn darparu gwasanaeth yn ardal Meirionnydd - i ymuno â Mantell Gwynedd yn eu pabell ar gae Sioe Sir Meirion eleni. Ffoniwch **(01341 422575)** er mwyn sicrhau eich lle - edrychwn ymlaen at glywed oddi wrthych!

Dilynwch yr Uned Symudol

Galwch heibio'r Uned Symudol yn y digwyddiadau isod:
15-05-2011 – Triathlon Harlech
04-06-2011 – Rali Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc Meirionnydd
11-06-2011 – Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen
02-07-2011 – Sioe Amaethyddol Caernarfon

Os hoffech drafod anghenion hyfforddiant eich mudiad cysylltwch â **Delyth Vaughan 01286 672626, delyth@mantellgwynedd.com**. Neu i gael rhagor o wybodaeth am hyfforddiant cysylltwch ag **Ellen ap Dafydd 01341 422575 EllenapDafydd@mantellgwynedd.com**